# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 1

TROSOLWG O'R DDEDDF

*Trosolwg o weddill y Ddeddf*

### 5 Trosolwg o Rannau 3 i 9: gweithredu a therfynu contractau meddiannaeth

(1) Mae a wnelo Rhannau 3 i 9 â chontractau meddiannaeth.

(2) Mae Rhan 3 yn gymwys i bob contract meddiannaeth; mae'n ymdrin ag amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â hawliau a rhwymedigaethau partïon i gontractau meddiannaeth.

(3) Nid yw Rhannau 4 i 8 ond yn gymwys i fathau penodol o gontract meddiannaeth—

(a) mae a wnelo Rhan 4 â rhwymedigaethau landlordiaid o ran cyflwr anheddau; mae Pennod 2 (sy'n nodi'r rhwymedigaethau) yn gymwys i bob contract meddiannaeth, ac eithrio contractau safonol cyfnod penodol am gyfnod o saith mlynedd neu ragor, ac mae Penodau 1 a 3 yn gymwys yn gyffredinol,

(b) nid yw Rhan 5 ond yn gymwys i gontractau diogel (ac nid yw adran 118 ond yn gymwys i gontractau diogel a wneir â landlord cymunedol),

(c) nid yw Rhan 6 ond yn gymwys i gontractau safonol cyfnodol,

(d) nid yw Rhan 7 ond yn gymwys i gontractau safonol cyfnod penodol, ac

(e) nid yw Rhan 8 ond yn gymwys i gontractau safonol â chymorth (sef contract meddiannaeth sy'n ymwneud â llety sy'n cael ei ddarparu mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth).

(4) Mae a wnelo Rhan 9 â therfynu contractau meddiannaeth; yn benodol, mae'n cynnwys—

(a) Penodau sy'n gymwys i bob contract meddiannaeth, a

(b) Penodau sydd ond yn gymwys i fathau penodol o gontract meddiannaeth.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Trosolwg o weddill y Ddeddf yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 5 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

## 6 Trosolwg o Rannau 10 ac 11: darpariaeth gyffredinol

(1) Mae a wnelo Rhan 10 â materion amrywiol sydd naill ai—

(a) yn atodol i Rannau 2 i 9, neu

(b) ynghylch cymhwyso a gweithredu'r Ddeddf hon.

(2) Mae Rhan 11 yn cynnwys—

(a) darpariaeth ynghylch dehongli'r Ddeddf hon, a

(b) darpariaeth sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I4** A. 6 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Croes Bennawd: Trosolwg o weddill y Ddeddf yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5